| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **12 Medi 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad :** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol Cwsmeriaid** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Parth y Cyhoedd** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â derbyn barn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ynglŷn â strwythur a chynnwys Strategaeth Parth y Cyhoedd y Cyngor. Mae'r strategaeth wedi ei hatodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Hyd yma, nid yw'r Cyngor wedi cynhyrchu Strategaeth Parth y Cyhoedd sy'n amlinellu'r ffordd y mae'n bwriadu ymdrin â materion sy'n effeithio ar barthau cyhoeddus yn y Sir. Bu i adroddiad Archwiliad Mewnol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli parthau cyhoeddus argymell bod strategaeth o'r fath yn angenrheidiol er mwyn egluro a chael cysondeb yn y ffordd mae'r Cyngor yn ymdrin â'r maes pwysig hwn. Yr ail argymhelliad o fewn yr adroddiad Archwilio yw sicrhau gwell cydweithio rhwng gwasanaethau allweddol a gweithredu dull mwy corfforaethol o ran cynllunio ac ymateb i faterion sy'n ymwneud â pharthau cyhoeddus.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn gwneud sylwadau ar gynnwys y Strategaeth Parth y Cyhoedd ddrafft cyn iddi gael ei chyflwyno'n ffurfiol i'r Cabinet.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Mae'r Strategaeth Parth y Cyhoedd ddrafft wedi ei datblygu yn dilyn ymchwil i strategaethau tebyg sy'n bodoli mewn awdurdodau eraill yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys strategaethau tebyg o wledydd tramor. Roedd nifer o Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth allweddol yn rhan o'r gwaith i ddechrau datblygu'r Strategaeth. Rhannwyd drafft cynharach o'r Strategaeth mewn gweithdy a oedd yn cynnwys uwch reolwyr a rheolwyr canol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau parth cyhoeddus yn y Sir. Roedd y gweithdy yn sylfaen bellach ar gyfer datblygu'r Strategaeth. Mae'r Aelod Arweiniol hefyd wedi bod yn rhan o'r camau datblygu. Nod y ddogfen yw bod yn ddogfen strategol sy'n diffinio beth yw parth cyhoeddus ac yn nodi sut bydd y Cyngor yn rheoli ac yn dylanwadu ar y gwaith sydd ar y gweill. Mae'r Strategaeth yn ceisio diffinio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth weithredu newid sy'n gwella parthau cyhoeddus.

Mae ymgais wedi ei wneud i geisio diffinio rôl a chyfrifoldeb aelodau allweddol, aelodau Archwilio, aelodau Grwpiau Ardal yr Aelodau a swyddogion allweddol. Mae pedair egwyddor strategol wedi ei hamlygu:

- parth cyhoeddus sy'n gyraeddadwy a chyda cysylltiadau da
- Amgylchedd glân a thaclus
- Cadw a datblygu hunaniaeth leol
- Amgylchedd diogel

Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r pedair egwyddor ar dudalennau 5-8 y ddogfen ddrafft, ynghyd ag enghreifftiau ymarferol o ddatblygiadau'r misoedd a'r blynyddoedd diwethaf. Bydd y strategaeth yn cynorthwyo i gyflawni blaenoriaeth gorfforaethol "Strydoedd Glân a Thaclus" ynghyd â'r flaenoriaeth ar gyfer "Datblygu'r economi lleol". Wedi dweud hynny mae'r Strategaeth yn fwy eang na'r ddwy flaenoriaeth gan ei bod yn effeithio ar yr holl drigolion yn ogystal â'r rheiny sy'n gweithio ac yn ymweld â Sir Ddinbych.

Diben y Strategaeth yw dylanwadu ar y ffordd y bydd gwasanaethau'r Cyngor yn gweithio yn y dyfodol a'r ffordd y bydd y Cyngor yn cydweithio â phartneriaid i geisio gwella parthau cyhoeddus. Yn ogystal â datblygu a chytuno ar y Strategaeth hon, bydd mwy o waith yn cael ei wneud i ddod a gwasanaethau allweddol ynghyd i weithio'n fwy effeithiol ac i sicrhau cysondeb er mwyn cyflawni egwyddorion y Strategaeth. Enghraifft o'r math yma o weithgaredd, sy'n gweithio'n dda, yw datblygiad a gweithrediad y Strategaeth yn Erbyn Cŵn yn Baeddu. Yn ogystal, bydd uno Gwasanaeth Priffyrdd a Gwasanaeth yr Amgylchedd hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau gwell cyd-drefniant yn y Cyngor. Gwasanaethau eraill sy'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith yma yw'r Gwasanaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, y Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaeth Cyfathrebu, Hamdden a Marchnata. Er mwyn ymateb i'r ail argymhelliad yn yr adroddiad Archwilio, mae Cyfarwyddwr Corfforaethol Cwsmeriaid wedi dod â'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol at ei gilydd i weithio ar ddatblygiadau allweddol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y Strategaeth yn cynorthwyo i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer "Strydoedd Glân a Thaclus" yn ogystal â'r flaenoriaeth ar gyfer "Datblygu'r economi lleol".

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith i ddarparu'r Strategaeth o fewn y cyllidebau gwasanaeth cyfredol ac o fewn y gyllideb sydd wedi ei neilltuo yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer y ddwy flaenoriaeth uchod.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb?**

Y penderfyniad yw ceisio barn yr Aelodau ynglŷn â strwythur a chynnwys Strategaeth Parth y Cyhoedd ddrafft. Bydd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, a gynhaliwyd ar y

cynnig i lunio strategaeth ddrafft (gwelwch Atodiad 2), yn darparu gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo’r Aelodau i ddeall cynnig drafft.

**8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Hyd yma mae'r ymgynghoriadau wedi cynnwys swyddogion perthnasol o'r gwasanaethau amrywiol sy'n ymdrin â pharth y cyhoedd, yr Aelod Arweiniol a’r Uwch Dîm Arweiniol. Mae Cynghorau Tref a Chymuned hefyd wedi derbyn copïau er mwyn cyflwyno sylwadau, yn ogystal â’r sector gwirfoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Cynigir bod y Strategaeth ddrafft yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Medi.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd yn rhaid cwrdd ag unrhyw gost ychwanegol yn sgîl y Strategaeth yn defnyddio ein hadnoddau presennol.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Os yw’r Cyngor yn penderfynu peidio â datblygu Strategaeth Parth y Cyhoedd mae yna berygl na fyddwn yn bodloni’r argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad Archwilio, ac y bydd y diffyg cysondeb, a amlygwyd gan yr Archwilwyr, yn parhau yn broblem i'r dyfodol. Mae hyn yn achosi risg gan y gall dull y Cyngor ar gyfer parthau cyhoeddus fod yn llai effeithiol a chyson. Byddai datblygu Strategaeth gytunedig ar gyfer parthau cyhoeddus a strwythur gweithredol, a fyddai’n hyrwyddo gweithredu’r Strategaeth ar y cyd ag adrannau perthnasol, yn lleihau’r risg ac yn gwella dull yr Awdurdod ar gyfer ymdrin â pharthau cyhoeddus. Byddai hyn oll yn arwain at werthusiadau cadarnhaol gan drigolion ac ymwelwyr.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn galluogi’r Cyngor i wneud penderfyniadau ynghylch y mater hwn.

At hynny, mae cyd-destun y polisi ar dudalen 9 a 10 y Strategaeth ddrafft yn amlinellu’r fframweithiau cyfreithiol sy’n llywodraethu sut mae parthau cyhoeddus yn cael eu rheoli.

Mae Erthygl 6.3.3(a) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi’r rôl archwilio o ran datblygu polisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Cyfarwyddwr Corfforaethol:  Cwsmeriaid
Ffôn: 01824 712501